Llysgennad Oxbridge yng Nghymru

# Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a’r ymgeiswyr sy’n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth

S Gallagher, J Padley J

Mehefin 2014

Ysgrifennwyd y papur hwn yn wreiddiol i'w ddefnyddio'n fewnol ym mis Medi 2013, er mwyn adeiladu ar adroddiad cychwynnol Llysgennad Oxbridge yng Nghymru ar Fynediad i Oxbridge yng Nghymru[1], ac i lunio rhywfaint o'r data a ddefnyddiwyd wedi hynny yn Adroddiad Interim Llysgennad Oxbridge yng Nghymru[2]. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn awr, gyda diweddariadau, ochr yn ochr â phapurau ac adroddiadau canlyniadol o brosiect Llysgennad Oxbridge. Mae'r papur hwn yn archwilio'r prif faterion sy'n gysylltiedig â chyfraddau derbyniadau i fyfyrwyr o Gymru i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt; a chyrhaeddiad academaidd ar y lefel uchel yng Nghymru, o gymharu â gweddill y DU. Bydd yr archwiliad hwn yn cynnwys archwilio data cymharol rhanbarthol a chenedlaethol, yn ogystal â data lleol a chyd-destunol sy'n gysylltiedig â pherfformiad addysgol.

[1] http://paulmurphymp.co.uk/wp-content/uploads/Oxbridge-ReportPAULMURPHY1.pdf
[2] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/oxbridge-project/oxbridge-final-report/?skip=1&lang=cy

ISBN digidol 978 1 4734 1666 6
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22064

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**

**Crynodeb o’r canfyddiadau** **4**

**Adran 1: Ystadegau derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt** **6**

**Adran 2: Cyrhaeddiad academaidd yng Nghymru ac yn y DU** **13**

**Adran 3: Cymariaethau rhanbarthol rhwng Cymru a Lloegr** **28**

**Casgliadau** **32**

## Cyflwyniad

Penodwyd Llysgennad Oxbridge i edrych ar gyfraddau'r myfyrwyr o Gymru sy'n cael eu derbyn ym mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Mae'r papur hwn yn dadansoddi'r dystiolaeth ystadegol sy'n berthnasol i gyfraddau ymgeisio a derbyn myfyrwyr o Gymru i'r ddwy brifysgol yn ystod cylchoedd UCAS o 2008 i 2012: mae sampl sylweddol diweddar, hyd at y cylch diwethaf yr oedd data dilys ar gael ar ei gyfer ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ac yn cwmpasu cyflwyno'r radd A* fel rhan o'r arholiadau Safon Uwch ym mlwyddyn academaidd 2009-10. Ar gyfer yr un cyfnod pum mlynedd, bydd y papur hwn hefyd yn ystyried cyfraddau cyrhaeddiad academaidd lefel uwch ar draws Cymru yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch, ac yn cyfosod y rhain gyda'r ffigurau perfformiad cyfatebol, a ffigurau derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt, ar gyfer gweddill y DU. Mae cyrhaeddiad academaidd lefel uwch yn arwyddocaol yma oherwydd mae gan y ddwy brifysgol ofynion mynediad academaidd uchel iawn, ac mae'n rhaid i unrhyw ddadansoddiad o ffigurau derbyn ystyried y gronfa berthnasol/cronfeydd perthnasol o ddarpar ymgeiswyr realistig.

Mae gan brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt brosesau derbyn hyblyg, sy'n cynnwys ystod o fesurau perfformiad a photensial academaidd. Fodd bynnag, at ddibenion y papur hwn, byddwn yn ystyried dau ddangosydd cyffredinol o berfformiad academaidd sy'n cael ei gymharu â'r potensial i astudio yn Rhydychen neu yng Nghaergrawnt. Y rhain yw cyflawn 5 gradd A* neu fwy yn yr arholiadau TGAU (tua'r lefel a gyflawnwyd gan yr ymgeisydd cyffredin) a chyflawni 3 gradd A neu uwch yn yr arholiadau Safon Uwch (gofynion mynediad gofynnol Rhydychen).

Mae'n bwysig nodi dau gafeat i'r dadansoddiad hwn:

(a) Er bod prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn debyg mewn rhai ffordd, mae ganddynt brosesau derbyn gwahanol iawn. Ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau modiwlaidd UG a Safon Uwch, mae Caergrawnt yn dibynnu'n helaeth ar sgorau modiwlau uned cyfartalog, ar gyfer y rhestr fer ar gyfer y cyfweliadau a'r dewisiadau dilynol. Mae'r sefyllfa hon, sy'n anarferol yn y sector AU yng Nghymru, wedi'i mabwysiadu oherwydd bod y Brifysgol wedi nodi bod UMS cyfartalog ymgeiswyr yn ddangosydd cryf (y cryfaf yn sicr) o berfformiad dilynol mewn graddau yng Nghaergrawnt.[1] Yn Rhydychen, ar y llaw arall, gofynnir i ymgeiswyr gwblhau profion derbyniadau ar bynciau penodol cyn cael cyfweliad sydd, ynghyd â'r canlyniadau TGAU, yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer llunio rhestr fer ar gyfer y cyfweliadau a phenderfyniadau derbyn. Yn dilyn y cyfweliadau, mae Caergrawnt fel arfer yn disgwyl i ymgeiswyr Safon Uwch, sydd wedi derbyn cynnig, gyflawni A*AA fel isafswm, tra bod cynigion Safon uwch Rhydychen yn

[1] http://www.admin.cam.ac.uk/offices/admissions/research/ [cyrchwyd 24/03/14]

amrywio o AAA i A*A*A, yn ôl y cwrs.[2] Yn gryno, ac er mwyn ailadrodd, nid yw'n bosibl nac yn ddymunol disgrifio proses dderbyn unffurf ar gyfer "Oxbridge". Er bod eu canlyniadau yn debyg, mae'r ddwy broses yn wahanol ac ni ddylid eu cymharu.

(b) Mae data cyrhaeddiad ysgolion a cholegau, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Gogledd Iwerddon, a Llywodraeth y DU yn adlewyrchiad o'r data diweddaraf a mwyaf cyson sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n deillio o nifer o ffynonellau ac nid yw wedi'i goladu mewn ffordd unffurf ac nid oes gan y data sicrwydd ansawdd. Er gwaethaf hyn, credwn fod y data a ddarparwyd a'r dadansoddiad a gynhaliwyd yma yn ddigonol i gynnig cynrychiolaeth gymharol gywir o dueddiadau derbyn Rhydychen a Chaergrawnt a chyrhaeddiad academaidd yng Nghymru yn ystod y cyfnod asesu. Pan nad yw hyn yn wir, bydd y materion sy'n codi a'r rhesymau drostynt yn cael eu hamlygu.

Darparwyd yr ystadegau a ddefnyddiwyd drwy'r papur hwn, oni nodir yn wahanol, gan Swyddfa Derbyniadau Prifysgol Rhydychen; Swyddfa Derbyniadau Caergrawnt, Ystadegau Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru; Tîm Ystadegau ac Ymchwil, Adran Addysg Gogledd Iwerddon; a'r Tîm Gohebiaeth Cyrhaeddiad, Adran Addysg y DU.

[2] Gweler y rhagarweiniad i Adran 2.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

(a) Yn ystod 2008-12, roedd gan ymgeiswyr a oedd yn byw yng Nghymru, gyfle ystadegol is nac ymgeiswyr a oedd yn byw yn y DU o gael eu cynnwys ar y rhestr fer, cael cynnig lle, a'u derbyn yn y pen draw yn Rhydychen neu Gaergrawnt. Fodd bynnag, nid yw'r arsylwad hwn yn ystyried unrhyw fesur o gyrhaeddiad ymgeiswyr mewn arholiadau ar adeg y cais. Gallai gwahaniaethau yng nghyrhaeddiad cymharol ymgeiswyr o Gymru ac ymgeiswyr eraill o'r DU esbonio'r gwahaniaethau yn y cyfraddau llwyddiant. Bydd angen gwneud gwaith ymchwil pellach ar hyn.

(b) Nid yw maint cymharol fach y sector annibynnol yng Nghymru yn esbonio (a). Er bod gan ymgeiswyr o'r sector annibynnol a oedd yn byw yng Nghymru yn ystod 2008-12 gyfle ystadegol uwch o wneud ceisiadau llwyddiannus o gymharu â'u cymheiriaid o'r sector a gynhelir a oedd yn byw yng Nghymru, derbyniwyd cyfradd is i'r ddwy brifysgol, o gymharu ag ymgeiswyr annibynnol a oedd yn byw yn y DU.

(c) Yng nghylchoedd UCAS yn 2011 a 2012, roedd y mwyafrif helaeth o ymgeiswyr Safon Uwch a dderbyniodd le yn Rhydychen a Chaergrawnt wedi cyflawni A*A*A fel isafswm: yng Nghaergrawnt, 83% yn y ddau gylch; yn Rhydychen, 67% a 63%, yn y drefn honno..

(ch) Yn ystod 2008-12, roedd canrannau'r myfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru a oedd yn cyflawni AAA neu uwch, A*AA neu uwch, A*A*A neu uwch, a A*A*A* neu uwch yn is, flwyddyn ar ôl blwyddyn, o gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon, er bod y bwlch rhwng perfformiad TGAU Cymru a pherfformiad TGAU gweddill y DU yn llawer llai na'r bwlch ar lefel Safon Uwch.

(d) Yn ystod 2008-12, roedd canrannau'r myfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru a oedd yn cyflawni AAA neu uwch, A*AA neu uwch, a A*A*A neu uwch wedi gostwng: 9.4% - 8.6%, 6.1% - 5.5%, a 3.2% - 2.7%, yn y drefn honno. Roedd canran y myfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru a oedd yn cyflawni A*A*A* neu uwch yn ddigyfnewid (1.2% ar gyfartaledd).

(dd) Yn ystod 2008-12, roedd canran y myfyrwyr TGAU yng Nghymru a oedd yn cyflawni 5A* neu uwch yn is, flwyddyn ar ôl blwyddyn, o gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon, er bod y bwlch rhwng perfformiad TGAU yng Nghymru a pherfformiad TGAU yng ngweddill y DU yn llawer is nac ar lefel Safon Uwch.

(e) Yn ystod 2008-12, cynyddodd canran y myfyrwyr TGAU yng Nghymru a oedd yn cyflawni 5A* neu uwch o 3.5% i 4.1%.

(f) Yn ystod 2011-12, ar lefel Awdurdod Lleol, cynyddodd nifer yr ymgeiswyr o Gymru i Rydychen a Chaergrawnt, yn unol â nifer y myfyrwyr a berfformiodd orau yn yr arholiadau Safon Uwch. Fodd bynnag, nid oedd nifer y derbyniadau i Rydychen a Chaergrawnt yn dilyn y patrwm hwn.

(ff) Yn ystod 2011-12, gwelodd hanner Awdurdodau Lleol Cymru lai na deg o fyfyrwyr Safon Uwch yn cyflawni A*A*A neu uwch. Yn yr un cyfnod, o sampl o naw

Awdurdod Lleol yng Nghymru, nid oedd gan 46% o ysgolion a gynhelir unrhyw fyfyrwyr Safon Uwch a oedd wedi cyflawni A*A*A neu uwch.  Roedd gan 36% un neu ddau o fyfyrwyr o'r fath.

## Adran 1: Ystadegau derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt

Yn yr adran hon byddwn yn ystyried tueddiadau yng ngheisiadau a data derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt ar gyfer cylchoedd UCAS o 2008 i 2012, yn cynnwys y cyfraddau llwyddiant ym mhob cam o'r broses ymgeisio. Byddwn yn cymharu cyfraddau llwyddiant myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru â myfyrwyr sy'n byw yn y DU, ac yn ymchwilio i'r cyfraddau llwyddiant yn ôl mathau o ysgolion.

O ystyried y gwahaniaethau rhwng prosesau derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt, mae'n syniad da dangos y data derbyniadau ar gyfer y ddwy brifysgol ar wahân. Mae'r pum tabl isod yn cynnwys yr ystadegau derbyniadau ar gyfer ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru ac ymgeiswyr sy'n byw yn y DU i Rydychen a Chaergrawnt ar gyfer cylchoedd UCAS o 2008 i 2012, yn cynnwys ymgeiswyr a ddisgrifiwyd, at ddibenion derbyniadau, fel "Arall a Thramor". Maent yn nodi nifer y ceisiadau, nifer yr ymgeiswyr a roddwyd ar restr fer ar gyfer cyfweliad a chyfradd rhestr fer (Rhydychen yn unig),[3] nifer a chyfradd y cynigion a wnaed, a nifer a chyfradd y derbyniadau.

### Tabl 1.1: Ystadegau derbyniadau 2008-2012 ar gyfer ymgeiswyr Caergrawnt sy'n byw yng Nghymru[4]

| UCAS | # Ceis | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|
| **2008** | 241 | 65 | 27.0% | 60 | 24.9% |
| **2009** | 287 | 68 | 23.7% | 59 | 20.6% |
| **2010** | 290 | 72 | 24.8% | 65 | 22.4% |
| **2011** | 247 | 69 | 27.9% | 57 | 23.1% |
| **2012** | 269 | 66 | 24.5% | 60 | 22.3% |
| **Cyfartaledd** | 267 | 68 | 25.5% | 60 | 22.6% |

### Tabl 1.2: Ystadegau derbyniadau 2008-2012 ar gyfer Ymgeiswyr Caergrawnt sy'n byw yn y DU

| UCAS | # Ceis | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|
| **2008** | 10179 | 3281 | 32.2% | 2907 | 28.6% |
| **2009** | 10867 | 3221 | 29.6% | 2842 | 26.2% |
| **2010** | 10312 | 3180 | 30.8% | 2745 | 26.6% |
| **2011** | 9798 | 2994 | 30.6% | 2590 | 26.4% |
| **2012** | 9832 | 3173 | 32.3% | 2691 | 27.4% |
| **Cyfartaledd** | 10198 | 3170 | 31.1% | 2755 | 27.0% |

[3] Nid yw CAO yn casglu ystadegau ar restrau byr yn ganolog, felly nid yw'r rhain ar gael i'w dadansoddi.

[4] Ceis = ceisiadau; Cyn = cynigion; Derb = derbyniadau

**Tabl 1.3: Ffigurau derbyniadau 2008-2012 ar gyfer ymgeiswyr Rhydychen sy'n byw yng Nghymru**[5]

| UCAS | # Ceis | # RhF | % Cyfradd RhF | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2008** | 401 | 298 | 74.3% | 92 | 22.9% | 84 | 20.9% |
| **2009** | 486 | 329 | 67.7% | 85 | 17.5% | 78 | 16.0% |
| **2010** | 436 | 251 | 57.6% | 79 | 18.1% | 74 | 17.0% |
| **2011** | 476 | 281 | 59.0% | 83 | 17.4% | 74 | 15.5% |
| **2012** | 424 | 236 | 55.7% | 80 | 18.9% | 75 | 17.7% |
| **Cyfartaledd** | 445 | 279 | 62.8% | 84 | 18.8% | 77 | 17.3% |

**Tabl 1.4: Ffigurau derbyniadau 2008-2012 ar gyfer ymgeiswyr Rhydychen sy'n byw yn y DU**

| UCAS | # Ceis | # RhF | % Cyfradd RhF | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2008** | 10094 | 7904 | 78.3% | 2988 | 29.6% | 2755 | 27.3% |
| **2009** | 10894 | 7779 | 71.4% | 2920 | 26.8% | 2727 | 25.0% |
| **2010** | 12333 | 8102 | 65.7% | 2853 | 23.1% | 2670 | 21.6% |
| **2011** | 12107 | 7810 | 64.5% | 2863 | 23.6% | 2665 | 22.0% |
| **2012** | 11832 | 7618 | 64.4% | 2904 | 24.5% | 2695 | 22.8% |
| **Cyfartaledd** | 11452 | 7843 | 68.5% | 2906 | 25.4% | 2702 | 23.6% |

**Tabl 1.5: Ffigurau derbyniadau cyfartalog ar gyfer Rhydychen a Chaergrawnt 2008-2012**

| UCAS | # Ceis | # RhF | % Cyfradd RhF | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Caerg Cymru** | 267 | | | 68 | 25.5% | 60 | 22.6% |
| **Rhyd Cymru** | 445 | 279 | 62.8% | 84 | 18.8% | 77 | 17.3% |
| **Caerg DU** | 10198 | | | 3170 | 31.1% | 2755 | 27.0% |
| **Rhyd DU** | 11452 | 7843 | 68.5% | 2906 | 25.4% | 2702 | 23.6% |

O'r pum tabl hyn, gellir nodi'r pwyntiau canlynol:

(a) Mae Rhydychen a Chaergrawnt yn derbyn niferoedd tebyg o fyfyrwyr sy'n byw yn y DU bob blwyddyn.

[5] Ceis = ceisiadau; RhF= rhestr fer; Cyn = cynigion; Derb = derbyniadau

(b) Mae Rhydychen yn derbyn nifer uwch o ymgeiswyr sy'n byw yn y DU, y flwyddyn, o gymharu â Chaergrawnt
(c) Gan ganiatáu ar gyfer (b), mae Rhydychen yn derbyn nifer gymesur uwch o ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru, y flwyddyn, o gymharu â Chaergrawnt.
(ch) Mae gan ymgeiswyr sy'n byw yn y DU ac yng Nghymru gyfle ystadegol uwch o gael cynnig lle ac yna eu derbyn yng Nghaergrawnt nac yn Rhydychen.
(d) Mae gan ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru gyfle ystadegol is, o gymharu ag ymgeiswyr sy'n byw yn y DU, o gael eu cynnwys ar restr fer, derbyn lleoedd, a'u derbyn yn y pen draw yn Rhydychen neu Gaergrawnt.

Nid yw (ch) yn syndod, o ystyried (a), (b), ac (c). Mae gan Rydychen nifer gyfartalog uwch o ymgeiswyr sy'n byw yn y DU ac ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru, o gymharu â Chaergrawnt, ond mae'r ddwy brifysgol yn derbyn tua'r un nifer o bob grŵp. Felly, gellir rhagweld y bydd cyfraddau llwyddiant cyfartalog y ddau grŵp o ymgeiswyr yn is yn Rhydychen nac yng Nghaergrawnt. Mae'n debygol y gellir priodoli (c) i bellter daearyddol y ddwy brifysgol o Gymru, a'r cysylltiadau trafnidiaeth â Chymru. Mae'n gyflymach cyrraedd Rhydychen o'r rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, o gymharu â Chaergrawnt, felly mae Rhydychen yn ymddangos fel dewis mwy deniadol i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, yn arbennig os ydynt yn dymuno aros yn gymharol agos i adref. Gallai dewis cyrsiau fod yn ffactor yma, ond byddai'n anodd asesu effaith hyn.

Mae (d) yn amlwg yn fwy heriol, yn arbennig os ydym yn cymryd golwg fanylach ar y ffigurau yn Nhabl 5.1 Yn Rhydychen, ar ôl llunio rhestr fer, mae gan ymgeisydd sy'n byw yn y DU 37.1% o siawns o dderbyn cynnig a 34.5% o siawns o gael eu derbyn. O gymharu â hyn, mae gan ymgeisydd sy'n byw yng Nghymru sy'n gwneud cais i Rydychen, ac sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr fer, 30.1% o siawns ar gyfartaledd o dderbyn cynnig a 28.0% o siawns o gael eu derbyn. Mae hyn yn amlwg yn awgrymu bod ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru, ac sy'n gwneud cais i Rydychen yn llai tebygol, yn ystadegol, o gael eu cynnwys ar y rhestr fer, o gymharu â'u cyfoedion sy'n byw yn y DU, ac maent hefyd yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus ar ôl cael eu cynnwys ar y rhestr fer.
Yn y ddwy brifysgol, y rheswm nodweddiadol a roddir am beidio â chynnwys ymgeiswyr ar restr fer i gael cyfweliad yw - gan ganiatáu ar gyfer ffactorau cyd-destunol – nad yw cyrhaeddiad academaidd yr ymgeisydd ar y pwynt gwneud cais, yn cynnwys y profion dawn a gynhelir cyn y cyfweliadau yn Rhydychen, yn gystadleuol yn y maes a gasglwyd. Y rhesymau nodweddiadol a roddir am beidio â gwneud cynnig i ymgeisydd ar ôl cyfweliad yw bod yr ymgeisydd yn llai cryf yn gyfannol nac eraill, yn nhermau cymhwyster academaidd, a brwdfrydedd a dawn ar gyfer y cwrs a ddewiswyd. Mae Tabl 1.5 yn awgrymu bod ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn methu yn y meysydd hyn, h.y. mae ganddynt gofnodion

academaidd llai trawiadol ar gyfartaledd, o gymharu â'u cyfoedion sy'n byw yn y DU, ac maent yn llai cryf yn gyfannol, ar gyfartaledd, pan fyddant yn cael eu hasesu ar ôl cyfweliad.[6]

Cyn y gallwn drafod y ddau gasgliad hyn mewn mwy o fanylder, drwy ddadansoddi cyrhaeddiad academaidd lefel uwch yng Nghymru, dylem hefyd ystyried yr ystadegau cyrhaeddiad ar y math o sefydliadau addysgol y mae'r ymgeiswyr yn eu mynychu. Mae'r sector annibynnol yn Lloegr yn wahanol iawn i'r sector annibynnol yng ngweddill y DU, a gellir dadlau felly bod nifer, maint a llwyddiant academaidd cymharol sefydliadau annibynnol yn Lloegr (yn arbennig ym mhynciau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau) yn cam-ystumio ffigurau derbyn Rhydychen a Chaergrawnt.

Mae'r pum tabl isod yn dangos yr ystadegau ar gyfer ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru ac ymgeiswyr sy'n byw yn y DU, yn ôl mathau o sefydliadau, sy'n gwneud cais i Rydychen a Chaergrawnt ar gyfer cylchoedd UCAS o 2008 i 2012. Maent yn cynnwys canran yr ymgeiswyr o'r sector a gynhelir a'r sector annibynnol, canran yr ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynnig o'r sector a gynhelir a'r sector annibynnol a chanran yr ymgeiswyr o'r sector a gynhelir a'r sector annibynnol sydd wedi derbyn cais. Nid ydynt yn cynnwys canrannau'r ymgeiswyr sy'n cael eu disgrifio, at ddibenion derbyniadau, fel "Arall a Thramor", p'un a ydynt yn byw yng Nghymru neu yn y DU.

[6] Er mwyn gallu cadarnhau'n llwyr a yw'r ddau gasgliad hyn yn gywir, mae angen i ni adolygu cyrhaeddiad ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru yn eu harholiadau TGAU, UG ac yna Safon Uwch i Rydychen a Chaergrawnt, yn erbyn eu cyfraddau cynigion a derbyn. Fodd bynnag, nid oedd y data angenrheidiol ar gael o fewn amserlen wreiddiol y papur hwn, felly gwnaed penderfyniad i barhau heb y data hwn, ond yn cydnabod ei bwysigrwydd ar gyfer gwaith dadansoddi yn y dyfodol. O ystyried arwyddocâd y data hwn, bydd yn cael ei ystyried mewn papur ar wahân.

**Tabl 1.6: Ystadegau derbyniadau, yn ôl sector, ar gyfer ymgeiswyr i Gaergrawnt sy'n byw yng Nghymru 2008-2012[7]**

| UCAS | % Ceisiadau C | % Ceisiadau A | % Cynigion C | % Cynigion A | % Derbyniadau C | % Derbyniadau A |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2008** | 82.2% | 15.4% | 80.0% | 16.9% | 80.0% | 16.7% |
| **2009** | 82.9% | 15.3% | 80.9% | 19.1% | 81.4% | 18.6% |
| **2010** | 78.6% | 19.0% | 76.4% | 20.8% | 76.9% | 20.0% |
| **2011** | 75.7% | 17.4% | 71.0% | 26.1% | 70.2% | 28.1% |
| **2012** | 75.8% | 17.1% | 80.3% | 16.7% | 81.7% | 15.0% |
| **Cyfartaledd** | 79.1% | 16.9% | 77.6% | 20.0% | 78.1% | 19.6% |

**Tabl 1.7: Ystadegau derbyniadau, fesul sector, ar gyfer ymgeiswyr i Gaergrawnt sy'n byw yn y DU 2008-2012**

| UCAS | % Ceisiadau C | % Ceisiadau A | % Cynigion C | % Cynigion A | % Derbyniadau C | % Derbyniadau A |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2008** | 64.6% | 33.3% | 61.2% | 37.8% | 60.0% | 39.2% |
| **2009** | 65.2% | 32.2% | 60.0% | 39.0% | 58.2% | 40.9% |
| **2010** | 62.9% | 33.0% | 59.5% | 38.7% | 58.1% | 40.4% |
| **2011** | 61.2% | 32.4% | 58.8% | 38.2% | 57.4% | 40.0% |
| **2012** | 64.0% | 29.6% | 63.1% | 33.9% | 61.6% | 36.0% |
| **Cyfartaledd** | 63.6% | 32.1% | 60.6% | 37.5% | 59.0% | 39.3% |

**Tabl 1.8: Ystadegau derbyniadau, fesul sector, ar gyfer ymgeiswyr i Rydychen sy'n byw yng Nghymru 2008-2012**

| UCAS | % Ceisiadau C | % Ceisiadau A | % Cynigion C | % Cynigion A | % Derbyniadau C | % Derbyniadau A |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2008** | 82.9% | 17.0% | 81.5% | 18.5% | 79.8% | 20.2% |
| **2009** | 80.3% | 19.5% | 75.3% | 24.7% | 74.4% | 25.6% |
| **2010** | 81.8% | 18.1% | 70.9% | 29.1% | 73.0% | 27.0% |
| **2011** | 80.9% | 18.3% | 72.3% | 22.9% | 74.3% | 21.6% |
| **2012** | 82.1% | 17.2% | 70.0% | 22.5% | 68.0% | 24.0% |
| **Cyfartaledd** | 79.8% | 18.1% | 74.2% | 23.4% | 74.0% | 23.6% |

[7] C = ysgolion a gynhelir; A = ysgolion annibynnol.

**Tabl 1.9: Ystadegau derbyniadau, fesul sector, ar gyfer ymgeiswyr i Rydychen sy'n byw yn y DU 2008-2012**

| UCAS | % Ceisiadau C | % Ceisiadau A | % Cynigion C | % Cynigion A | % Derbyniadau C | % Derbyniadau A |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2008** | 59.6% | 39.0% | 56.1% | 43.3% | 55.0% | 44.4% |
| **2009** | 59.6% | 38.3% | 54.5% | 44.5% | 53.5% | 45.6% |
| **2010** | 61.5% | 36.7% | 55.8% | 43.2% | 54.9% | 44.2% |
| **2011** | 61.5% | 34.2% | 57.1% | 40.6% | 56.6% | 41.5% |
| **2012** | 60.7% | 35.5% | 56.5% | 41.0% | 56.0% | 41.5% |
| **Cyfartaledd** | 60.6% | 36.6% | 56.0% | 42.5% | 55.2% | 43.5% |

**Tabl 1.10: Ystadegau derbyniadau, cyfartalog sectorau, ar gyfer Rhydychen a Chaergrawnt 2008-2012**

| | % Ceisiadau C | % Ceisiadau A | % Cynigion C | % Cynigion A | % Derbyniadau C | % Derbyniadau A |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Caerg Cymru** | 79.1% | 16.9% | 77.6% | 20.0% | 78.1% | 19.6% |
| **Rhyd Cymru** | 79.8% | 18.1% | 74.2% | 23.4% | 74.0% | 23.6% |
| **Caerg DU** | 63.6% | 32.1% | 60.6% | 37.5% | 59.0% | 39.3% |
| **Rhyd DU** | 60.6% | 36.6% | 56.0% | 42.5% | 55.2% | 43.5% |

O'r pum tabl hyn, gellir nodi'r pwyntiau canlynol:

(a) Mae Rhydychen a Chaergrawnt yn derbyn mwy o ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru ac sy'n byw yn y DU o'r sector a gynhelir, o gymharu â'r sector annibynnol.

(b) Mae ymgeiswyr o'r sector annibynnol sy'n byw yng Nghymru ac yn y DU sy'n gwneud cais i Rydychen a Chaergrawnt yn profi cyfradd llwyddo uwch na'u cymheiriaid sydd wedi derbyn addysg y wladwriaeth.

(c) Mae Rhydychen a Chaergrawnt yn derbyn llawer llai o ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru o'r sector annibynnol nac o'r sector annibynnol yng ngweddill y DU.

Mae (a) yn ddisgwyliadwy, o ystyried bod mwy o fyfyrwyr yn y sector a gynhelir o gymharu â'r sector annibynnol, ac felly mae cronfa uwch, o ran niferoedd, o dalent gan y sector a gynhelir. Gan ganiatáu ar gyfer (a), mae (b) yn awgrymu bod yna nifer gymesur uwch o ymgeiswyr cystadleuol yn ôl cymhwyster yn y sector annibynnol, o gymharu â'r sector a gynhelir a/neu mae ysgolion annibynnol yn paratoi ymgeiswyr yn fwy effeithlon ar gyfer prosesau derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt ac nad yw rhai dewiswyr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i hyn. Mae (c) yn adlewyrchu'r ffaith bod y sector annibynnol yn llai yng Nghymru, o gymharu â gweddill y DU.

Gallwn hefyd ystyried hyn yn nhermau'r cyfraddau cynigion a derbyniadau cyfartalog:

## Tabl 1.11: Cyfraddau derbyniadau cyfartalog, fesul sector, ar gyfer Rhydychen a Chaergrawnt 2008-2012

| | % Cyfradd Cyn C | % Cyfradd Cyn A | % Cyfradd Derb C | % Cyfradd Derb A |
|---|---|---|---|---|
| **Caerg Cymru** | 25.0% | 30.2% | 22.3% | 26.2% |
| **Rhyd Cymru** | 17.5% | 24.4% | 16.1% | 22.6% |
| **Caerg DU** | 29.6% | 36.3% | 25.1% | 33.1% |
| **Rhyd DU** | 23.4% | 29.4% | 21.5% | 28.0% |

Mae hyn yn tanseilio myth nodedig, gan fod y canlyniadau yn Nhablau 1.6-1.11 yn dangos nad yw ceisiadau o ysgolion annibynnol yn unig yn esbonio'r amrywiaeth yn y cyfraddau llwyddo rhwng myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru a myfyrwyr sy'n byw yn y DU. Mae'r ddwy brifysgol yn derbyn cyfradd is o geisiadau annibynnol gan ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru, o gymharu ag ymgeiswyr o'r sector annibynnol sy'n byw yn y DU; gellir gweld patrwm tebyg ar gyfer ymgeiswyr o'r sector a gynhelir.

## Adran 2: Cyrhaeddiad academaidd yng Nghymru ac yn y DU

Nid yw cyflwyno'r tueddiadau ymgeisio a derbyniadau yn y ddwy brifysgol yn unig yn ddigonol. Mae angen i ni ystyried y gronfa o ddarpar ymgeiswyr realistig hefyd. Fel y nodwyd eisoes, mae gan y ddwy brifysgol ofynion mynediad academaidd manwl, gyda chynnig gofynnol safonol o AAA Safon Uwch yn Rhydychen a A*AA yng Nghaergrawnt. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae ymgeiswyr yn cyflwyno canlyniadau llawer cryfach na hyn fel arfer. Yng nghylchoedd UCAS yn 2011 a 2012, llwyddodd 83% o ymgeiswyr Safon Uwch Caergrawnt i gyflawni A*A*A neu uwch, a llwyddodd 60% i gyflawni A*A*A*.[8] Yng nghylch UCAS yn 2011, llwyddodd 67% o ymgeiswyr Safon Uwch Rhydychen i gyflawni A*A*A neu uwch, a llwyddodd 39% i gyflawni A*A*A*.[9] Yng nghylch UCAS yn 2012, llwyddodd 63% o ymgeiswyr Safon Uwch Rhydychen i gyflawni A*A*A neu uwch, a llwyddodd 40% i gyflawni A*A*A*.[10]

Mae'r patrwm yma yn glir. Er mwyn i ymgeiswyr Rhydychen a Chaergrawnt ymddangos yn gystadleuol yn y maes a gasglwyd, mae'n rhaid iddynt arddangos potensial academaidd cryf iawn pan fyddant yn gwneud cais, oherwydd bydd y mwyafrif llethol o ymgeiswyr Safon Uwch i'r ddwy brifysgol yn mynd ymlaen i gyflwyno canlyniadau terfynol A*A*A*neu uwch.

Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn edrych yn awr ar nifer y myfyrwyr Safon Uwch, a lleoliadau'r myfyrwyr hyn, sy'n llwyddo i gyflawni AAA neu uwch (cynnig safonol gofynnol Rhydychen), er mwyn cymharu nifer y myfyrwyr o Gymru sydd â chyrhaeddiad uchel gyda ffigurau cyfatebol ar gyfer gweddill y DU. Am nad yw graddau Safon Uwch fel arfer ar gael pan fydd myfyrwyr yn gwneud cais i brifysgolion (oni bai eu bod yn myfyrwyr sy'n gwneud cais am ôl-gymhwyster), byddwn hefyd yn ystyried nifer y myfyrwyr, yn ogystal â'u lleoliad, sy'n cyflawni 5A* neu uwch yn yr arholiadau TGAU, fel dangosydd cynnar o botensial academaidd. Mae'r ffigur hwn yn llawer mwy perthnasol i Rydychen nac i Gaergrawnt, oherwydd mae Caergrawnt yn rhoi mwy o flaenoriaeth i UMS cyfartalog UG, nac i berfformiad yn yr arholiadau TGAU.

Fel yr awgrymwyd yn flaenorol, mae'n rhaid deall nad yw'r gronfa o ddarpar ymgeiswyr realistig i Rydychen a Chaergrawnt yn cynrychioli'r nifer o fyfyrwyr Safon Uwch mewn unrhyw faes penodol. Yn hytrach, mae'n cynrychioli'r nifer o fyfyrwyr hynny y rhagwelir y byddant yn cyflawni o leiaf AAA. Yn ogystal, yn seiliedig ar y

---

[8] http://www.study.cam.ac.uk/undergraduate/apply/statistics/archive/admissionsstatistics2011.pdf [cyrchwyd 24/03/14], t. 9, a http://www.study.cam.ac.uk/undergraduate/publications/docs/admissionsstatistics2012.pdf [cyrchwyd 24/03/14], t. 9.

[9] http://www.ox.ac.uk/document.rm?id=2692 [cyrchwyd 24/03/14], t. 18.

[10] http://www.ox.ac.uk/document.rm?id=2690 [cyrchwyd 24/03/14], t. 22.

canlyniadau Safon Uwch terfynol a gyflwynir gan ymgeiswyr nodweddiadol yng nghylchoedd UCAS yn 2011 a 2012, dylid rhagweld, yn ddelfrydol ac yn realistig, y bydd ymgeiswyr cystadleuol Safon Uwch yn cyflawni o leiaf A*A*A*. Mae hefyd yn bwysig ystyried cyfuniadau Safon Uwch a'r pynciau astudio a ddymunir yn y brifysgol wrth ddadansoddi'r gronfa o ymgeiswyr. Fodd bynnag, yn absenoldeb gwybodaeth fanylach am ddewisiadau cyrsiau ymgeiswyr, bydd y papur hwn yn dadansoddi cyrhaeddiad academaidd yn unig, fel dangosydd cyffredinol ar gyfer y potensial i astudio yn Rhydychen neu yng Nghaergrawnt.

Mae'r pedwar tabl isod yn cynnwys ffigurau cyrhaeddiad ar y lefel uchaf yn yr arholiadau Safon Uwch a TGAU ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer blynyddoedd academaidd 2007-08 i 2011-12. Nodwch mai dim ond ar ddiwedd 2009-10 oedd y radd A* ar gael ar lefel Safon Uwch i fyfyrwyr , felly ni ddylid disgwyl gradd Safon Uwch A* yn 2007-08 a 2008-09. Mae ffigurau Lloegr ar gyfer y sectorau a gynhelir, annibynnol ac AB, tra bod ffigurau Gogledd Iwerddon yn cynrychioli'r sector ysgolion a gynhelir yn unig. Mae hyn o ganlyniad i'r fformat y rhyddhawyd y data hwn gan lywodraeth y DU a llywodraeth Gogledd Iwerddon. Nid yw ffigurau cyrhaeddiad yr Alban yn cael eu hystyried am nad yw'r mwyafrif o fyfyrwyr yn yr Alban yn sefyll arholiadau Safon Uwch a TGAU, ac felly ni fyddant yn gymaryddion effeithiol. Yn Nhabl 2.1, mae'r ffigurau cyrhaeddiad Safon Uwch ar gyfer Cymru wedi'u rhannu'n ysgolion (a gynhelir ac annibynnol) ac AB, gyda'r ffigurau cyffredinol ar gyfer y wlad yn cael eu dangos wedi hynny. Mae hyn yn adlewyrchu'r arfer cynyddol o gau darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion yng Nghymru, gyda'r myfyrwyr yn symud i golegau i gael addysg trydyddol, a diddordeb penodol dilynol ym mherfformiad y sector addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Yn olaf, fel y nodwyd yn ein Cyflwyniad, ni ellir rhagdybio bod cydraddoldeb llwyr rhwng y setiau data a ddarparwyd gan y gwahanol lywodraethau ar gyfer y sectorau addysgol gwahanol. Er enghraifft, gallai rhai o'r ffigurau gynrychioli myfyrwyr oedran ysgol yn unig, tra bod eraill – yn arbennig ar gyfer AB – yn cynnwys myfyrwyr hŷn hefyd. Unwaith eto, er gwaethaf y materion amrywiol hyn, credwn fod y data a ddarparwyd a'r dadansoddiad a gynhaliwyd yn ddigonol er mwyn cynnig cynrychiolaeth gymharol a chadarn o gyrhaeddiad academaidd a goblygiadau hyn yn ystod y cyfnod a aseswyd. Ym mhob achos, ac o hyn ymlaen, credwn fod cyfanswm nifer y disgyblion a gyflwynwyd yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi sefyll un neu fwy o arholiadau Safon Uwch neu TGAU.

## Tabl 2.1: Cyrhaeddiad Safon Uwch ar gyfer 2007-08 i 2011-12

| Rhanbarth | Blwyddyn | Nifer y disgyblion Safon Uwch | # AAA + | % AAA + | # A*AA + | % A*AA + | # A*A*A + | % A*A*A + | # A*A*A* + | % A*A*A* + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru (Ysgolion) | 2007-08 | 10629 | 1049 | 9.9% | | | | | | |
| | 2008-09 | 10920 | 1096 | 10.0% | | | | | | |
| | 2009-10 | 10980 | 1088 | 9.9% | 702 | 6.4% | 355 | 3.2% | 132 | 1.2% |
| | 2010-11 | 10707 | 1046 | 9.8% | 681 | 6.4% | 322 | 3.0% | 136 | 1.3% |
| | 2011-12 | 10507 | 943 | 9.0% | 608 | 5.8% | 295 | 2.8% | 123 | 1.2% |
| | **Cyfartaledd** | **10749** | **1044** | **9.7%** | **664** | **6.2%** | **324** | **3.0%** | **130** | **1.2%** |
| Cymru (AB) | 2007-08 | 2347 | 170 | 7.2% | | | | | | |
| | 2008-09 | 2613 | 207 | 7.9% | | | | | | |
| | 2009-10 | 2480 | 191 | 7.7% | 124 | 5.0% | 70 | 2.8% | 31 | 1.3% |
| | 2010-11 | 2468 | 157 | 6.4% | 108 | 4.4% | 61 | 2.5% | 30 | 1.2% |
| | 2011-12 | 2379 | 159 | 6.7% | 95 | 4.0% | 48 | 2.0% | 20 | 0.8% |
| | **Cyfartaledd** | **2457** | **177** | **7.2%** | **109** | **4.5%** | **60** | **2.4%** | **27** | **1.1%** |
| Cymru (Pob un) | 2007-08 | 12976 | 1219 | 9.4% | | | | | | |
| | 2008-09 | 13533 | 1303 | 9.6% | | | | | | |
| | 2009-10 | 13460 | 1279 | 9.5% | 826 | 6.1% | 425 | 3.2% | 163 | 1.2% |
| | 2010-11 | 13175 | 1203 | 9.1% | 789 | 6.0% | 383 | 2.9% | 166 | 1.3% |
| | 2011-12 | 12886 | 1102 | 8.6% | 703 | 5.5% | 343 | 2.7% | 143 | 1.1% |
| | **Cyfartaledd** | **13206** | **1221** | **9.2%** | **773** | **5.9%** | **384** | **2.9%** | **157** | **1.2%** |
| Lloegr (Pob un) | 2007-08 | 248589 | 30169 | 12.1% | | | | | | |
| | 2008-09 | 254138 | 32039 | 12.6% | | | | | | |
| | 2009-10 | 263620 | 33830 | 12.8% | 23839 | 9.0% | 12803 | 4.9% | 5448 | 2.1% |
| | 2010-11 | 253312 | 33537 | 13.2% | 24397 | 9.6% | 13220 | 5.2% | 5806 | 2.3% |
| | 2011-12 | 257166 | 33311 | 13.0% | 23859 | 9.3% | 12925 | 5.0% | 5637 | 2.2% |
| | **Cyfartaledd** | **255365** | **32577** | **12.8%** | **24032** | **9.3%** | **12983** | **5.0%** | **5630** | **2.2%** |
| Gogledd Iwerddon | 2007-08 | 10070 | 1727 | 17.1% | | | | | | |
| | 2008-09 | 10692 | 1681 | 15.7% | | | | | | |
| | 2009-10 | 11819 | 1851 | 15.7% | 1203 | 10.2% | 591 | 5.0% | 257 | 2.2% |
| | 2010-11 | 11055 | 1800 | 16.3% | 1128 | 10.2% | 568 | 5.1% | 254 | 2.3% |
| | 2011-12 | 11292 | 1645 | 14.6% | 1050 | 9.3% | 519 | 4.6% | 196 | 1.7% |
| | **Cyfartaledd** | **10986** | **1741** | **15.9%** | **1127** | **9.9%** | **559** | **4.9%** | **236** | **2.1%** |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DU[11] | 2007-08 | 271635 | 33115 | 12.2% | | | | | | |
| | 2008-09 | 278363 | 35023 | 12.6% | | | | | | |
| | 2009-10 | 288899 | 36960 | 12.8% | 25868 | 9.0% | 13819 | 4.8% | 5868 | 2.0% |
| | 2010-11 | 277542 | 36540 | 13.2% | 26314 | 9.5% | 14171 | 5.1% | 6226 | 2.2% |
| | 2011-12 | 281344 | 36058 | 12.8% | 25612 | 9.1% | 13787 | 4.9% | 5976 | 2.1% |
| | **Cyfartaledd** | **279557** | **35539** | **12.7%** | **25931** | **9.2%** | **13926** | **4.9%** | **6023** | **2.1%** |

[11] Nid yw'n cynnwys y sector annibynnol na'r sector AB yn yr Alban nac yng Ngogledd Iwerddon.

**Tabl 2.2: Cyrhaeddiad cyfartalog Safon Uwch ar gyfer 2007-08 to 2011-12**

| Rhanbarth | Nifer y disgyblion safon uwch | # AAA + | % AAA + | # A*AA + | % A*AA + | # A*A*A + | % A*A*A + | # A*A*A* + | % A*A*A* + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 13206 | 1221 | 9.2% | 773 | 5.9% | 384 | 2.9% | 157 | 1.2% |
| **Lloegr** | 255365 | 32577 | 12.8% | 24032 | 9.3% | 12983 | 5.0% | 5630 | 2.2% |
| **Gogledd Iwerddon** | 10986 | 1741 | 15.9% | 1127 | 9.9% | 559 | 4.9% | 236 | 2.1% |
| **DU** | 279557 | 35539 | 12.7% | 25931 | 9.2% | 13926 | 4.9% | 6023 | 2.1% |

## Tabl 2.3: Cyrhaeddiad TGAU o 2007-08 i 2011-12

| Rhanbarth | Blwyddyn | Nifer y disgyblion TGAU | # 5A*-C + | % 5A*-C + | # 5A* + | % 5A* + |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 2007-08 | 37045 | 21518 | 58.1% | 1308 | 3.5% |
| | 2008-09 | 35942 | 21138 | 58.8% | 1351 | 3.8% |
| | 2009-10 | 35548 | 21207 | 59.7% | 1323 | 3.7% |
| | 2010-11 | 34561 | 20316 | 58.8% | 1376 | 4.0% |
| | 2011-12 | 34201 | 19686 | 57.6% | 1396 | 4.1% |
| | Cyfartaledd | 35459 | 20773 | 58.6% | 1351 | 3.8% |
| **Lloegr**[12] | 2007-08 | 653083 | 356783 | 54.6% | 25911 | 4.0% |
| | 2008-09 | 634496 | 351728 | 55.4% | 26586 | 4.2% |
| | 2009-10 | 639263 | 358029 | 56.0% | 28678 | 4.5% |
| | 2010-11 | 627093 | 348783 | 55.6% | 29307 | 4.7% |
| | 2011-12 | 620617 | 342238 | 55.1% | 26888 | 4.3% |
| | Cyfartaledd | 634910 | 351512 | 55.4% | 27474 | 4.3% |
| **Gogledd Iwerddon** | 2007-08 | 24172 | 15302 | 63.3% | 1237 | 5.1% |
| | 2008-09 | 23164 | 14802 | 63.9% | 1190 | 5.1% |
| | 2009-10 | 22931 | 15013 | 65.5% | 1214 | 5.3% |
| | 2010-11 | 22699 | 14755 | 65.0% | 1169 | 5.2% |
| | 2011-12 | 22157 | 14410 | 65.0% | 1189 | 5.4% |
| | Cyfartaledd | 23025 | 14856 | 64.5% | 1200 | 5.2% |
| **DU**[13] | 2007-08 | 714300 | 393603 | 55.1% | 28456 | 4.0% |
| | 2008-09 | 693602 | 387668 | 55.9% | 29127 | 4.2% |
| | 2009-10 | 697742 | 394249 | 56.5% | 31215 | 4.5% |
| | 2010-11 | 684353 | 383854 | 56.1% | 31852 | 4.7% |
| | 2011-12 | 676975 | 376334 | 55.6% | 29473 | 4.4% |
| | Cyfartaledd | 693394 | 387142 | 55.8% | 30025 | 4.3% |

[12] Ceir anghysondeb nodedig rhwng y ffigurau hyn (a ddarparwyd gan y Tîm Gohebu Cyrhaeddiad, Adran Addysg y DU) a'r rhai a gyflwynir yn Nhabl 1a y ddogfen hon [cyrchwyd 24/03/14], lle mae'n ymddangos bod canran y disgyblion sy'n cyflawni 5A*-C wedi cynyddu o 65.3% yn 2007-08 i 81.8% yn 2011-12. Yn ôl llefarydd y Tîm Gohebu Cyrhaeddiad, y rheswm am yr anghysondeb hwn yw bod Tabl 1a yn dangos y ffigurau ar gyfer disgyblion sy'n "sefyll arholiadau TGAU ac arholiadau cyfatebol", tra bod y ffigurau a gyflwynir yn Nhabl 2.3 yma ond yn dangos nifer y disgyblion sy'n sefyll cyrsiau llawn TGAU (yn unol, credwn, â'r ffigurau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac Adran Addysg Gogledd Iwerddon).

[13] Nid yw hyn yn cynnwys y sector annibynnol yn yr Alban nac yng Ngogledd Iwerddon.

**Tabl 2.4: Cyrhaeddiad cyfartalog mewn arholiadau TGAU o 2007-08 i 2011-12**

| Rhanbarth | Nifer y disgyblion TGAU | # 5A*-C + | % 5A*-C + | # 5A* + | % 5A* + |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 35459 | 20773 | 58.6% | 1351 | 3.8% |
| **Lloegr** | 634910 | 351512 | 55.4% | 27474 | 4.3% |
| **Gogledd Iwerddon** | 23025 | 14856 | 64.5% | 1200 | 5.2% |
| **DU** | 693394 | 387142 | 55.8% | 30025 | 4.3% |

O'r pedwar tabl hyn, gellir nodi'r pwyntiau canlynol:

(a) Mae canrannau cyrhaeddiad myfyrwyr ym mhob un o'r categorïau Safon Uwch a aseswyd yn is, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yng Nghymru o gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon, gyda Gogledd Iwerddon yn dueddol o berfformio'n gryfach na Lloegr ar lefel AAA neu uwch neu A*AA neu uwch ac A*A*A neu uwch ac A*A*A* neu uwch.

(b) Mae'r holl ganlyniadau Safon Uwch a aseswyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon yn 2011-12 yn gymharol isel o gymharu â'r pedair blynedd academaidd flaenorol.

(c) Gan ganiatáu ar gyfer (b), mae pob un o'r canlyniadau Safon Uwch yng Nghymru wedi gostwng ers 2008-09, ac eithrio canrannau'r myfyrwyr sy'n cael A*A*A* neu uwch yn y sector ysgolion a'r sector Cymru gyfan (sy'n ddigyfnewid).

(ch) Mae sector AB Cymru yn perfformio ar lefel is na'r sector ysgolion Cymru ym mhob un o'r categorïau Safon Uwch a aseswyd, gyda'r eithriad cyffredinol pan fydd myfyrwyr yn cyflawni A*A*A* neu uwch.

(d) Mae canrannau'r myfyrwyr sy'n cyflawni 5A*-C neu uwch yn yr arholiadau TGAU yng Nghymru yn uwch, flwyddyn ar ôl blwyddyn, rhwng Lloegr (isaf) a Gogledd Iwerddon (uchaf), ond mae eu perfformiad yn is na Lloegr, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ar 5A* neu uwch.

(dd) Mae canrannau'r myfyrwyr sy'n cyflawni 5A* neu uwch yn yr arholiadau TGAU yn dueddol o gynyddu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar draws y cyfnod asesu.

(e) Mae'r bwlch rhwng Cymru a'r gweddill, o ran y perfformiad gorau yn yr arholiadau Safon Uwch, yn llawer mwy na'r perfformiad yn yr arholiadau TGAU, lle mae'r gwahaniaeth yn gymharol fach.

Mae'r darlun o ran y perfformiad academaidd uchaf un yng Nghymru yn galonogol mewn un ystyr. Ar gyfer y cyfnod o 2009-10 i 2011-12, mae canrannau'r myfyrwyr sy'n cyflawni 5A* neu uwch yn yr arholiadau TGAU wedi cynyddu, ac mae canrannau'r myfyrwyr sy'n cyflawni A*A*A* neu uwch yn yr arholiadau Safon Uwch wedi parhau i fod yn gyson. Nid yw (ch) yn ymddangos mor ddrwg ag y mae'n

ymddangos ar yr olwg gyntaf, oherwydd mae'r sector AB yn darparu ar gyfer nifer o fyfyrwyr nad ydynt yn sefyll tri phwnc Safon Uwch neu fwy, e.e. myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau Safon Uwch ochr yn ochr â chymwysterau galwedigaethol neu'n dilyn Safon Uwch mewn dosbarth nos. O ystyried bod cyfanswm nifer y disgyblion Safon Uwch yn y tabl uchod yn cynnwys nifer y myfyrwyr a safodd un arholiad Safon Uwch neu fwy ar ddiwedd pob un o'r blynyddoedd a aseswyd, byddai rhywun yn disgwyl gweld y sector AB yn cyflawni'n waeth na'r sector ysgolion, ar fesurau sy'n ystyried canlyniadau terfynol mewn tri phwnc Safon Uwch neu fwy.

Y tu hwnt i'r uchod, mae pob maes arall a aseswyd yng Nghymru - gan ganiatáu unwaith eto ar gyfer (b) - yn dangos patrwm o ddirywiad. Mae (a) ac (d) yn cyflwyno gwrthgyferbyniad llwm: Mae Cymru'n perfformio'n waeth na Lloegr a Gogledd Iwerddon ym mhob maes Safon Uwch a aseswyd, ac yng Nghymru y ceir y ganran leiaf o fyfyrwyr 5A* TGAU neu uwch (er gwaethaf y ffaith bod canran gyson uwch yng Nghymru o fyfyrwyr TGAU 5A*-C, o gymharu â Lloegr). Mae'r ffaith bod cyfradd perfformiad TGAU 5A* neu uwch yng Nghymru yn gwella, er bod ei chyfradd perfformiad Safon Uwch uchaf un yn dirywio hefyd yn peri pryder. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r myfyrwyr TGAU gorau yng Nghymru, am ryw reswm, yn gwireddu eu potensial ar lefel Safon Uwch.

Gallai nifer o ffactorau amrywiol fod yn cyfrannu at hyn, ac yn wir gallant fod yn berthnasol i bob un o'r ystadegau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y pecynnau cymwysterau sydd ar gael i fyfyrwyr mewn sefydliadau a rhanbarthau gwahanol (e.e. nifer a chyfuniad y pynciau TGAU a Safon Uwch y gallant eu sefyll, ac unrhyw gymwysterau ategol sy'n cael eu dilyn ochr yn ochr â hwy), a llwybrau cynnydd y myfyrwyr o TGAU a Safon Uwch. Ffactor arall a allai fod yn gyfrifol am y gwahaniaeth rhwng TGAU a Safon Uwch yw maint y cohort: gallai myfyrwyr ar lefel TGAU elwa o fod yn rhan o gohortau cymharol fawr, ond sy'n newid i fod yn gohortau llawer llai ar lefel Safon Uwch yn y rhan fwyaf o leoliadau chweched dosbarth yng Nghymru. Nid yw'r ffactorau hynny'n cael eu hystyried yma ond, fel ein dadansoddiad o Dablau 1.1-1.5, mae'n bwysig eu crybwyll.

Mae'n ddiddorol nodi nad yw'r tueddiadau gofidus hyn ym mherfformiad academaidd uchaf yng Nghymru yn cael eu trawsnewid i Dablau 1.1 ac 1.3. (O ystyried (c) yn benodol, gellir disgwyl y byddai cyfraddau derbyn ymgeiswyr o Gymru yn Rhydychen a Chaergrawnt yn dangos gostyngiad cyson yn ystod y cyfnod a aseswyd, ond nid ydynt yn gwneud hynny (er bod y gyfradd dderbyn ar gyfer ymgeiswyr o Gymru yng nghylch UCAS yn 2008 yn amlwg yn uwch yn y ddwy brifysgol, o gymharu â'r blynyddoedd dilynol). Mae'r diffyg cydberthynas hon yn galonogol, oherwydd mae'n awgrymu bod myfyrwyr gwych o Gymru yn parhau i wneud cais ac yn cael eu derbyn yn y ddwy brifysgol, a hynny ar gyfradd sefydlog.

Fodd bynnag, o ystyried bod y mwyafrif llethol o ymgeiswyr Safon Uwch yn y ddwy brifysgol bellach yn cyflawni A*A*A*, ac nad yw'r gostyngiad cyson yn lefel y cyflawniad lefel uchaf yng Nghymru'n argoeli'n dda ar gyfer darpar ymgeiswyr yn y dyfodol.

Nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar lefel Awdurdodau Lleol, er mwyn mapio ein data cyrhaeddiad ar ffigurau derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt. Yn ddelfrydol, ym mhob ALl, byddwn yn canfod cydberthynas rhwng y gyfradd cyrhaeddiad academaidd uchaf a chyfradd y ceisiadau llwyddiannus i Rydychen a Chaergrawnt. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir. Os bydd y lefelau cyrhaeddiad yn uchel ond nifer y ceisiadau yn isel, mae hyn yn awgrymu y gallai fod problemau i'w goresgyn, o ran amgyffrediad neu uchelgais, e.e. mae'r myfyrwyr ALl yn gymwys yn academaidd, ond am ryw reswm/rhesymau, maent yn amharod i ystyried cais. Ar y llaw arall, os bydd lefelau cyrhaeddiad a cheisiadau ALl yn gryf, ond bod y gyfradd derbyniadau yn isel, mae hyn yn awgrymu nad yw ei fyfyrwyr yn cael eu paratoi ar gyfer y broses dderbyn. Gellir goresgyn y materion hyn drwy ddarpariaeth allgymorth benodol, sy'n sicrhau cydweithrediad rhwng y prifysgolion a'r ysgolion a cholegau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn canolbwyntio ar lefelau cyrhaeddiad TGAU a Safon Uwch ymgeiswyr realistig i Rydychen a Chaergrawnt yn ôl ALl yng Nghymru ar gyfer cylch UCAS yn 2012 (y cylch diweddaraf y mae data dilys ar gael amdano), ynghyd â cheisiadau cyfunol a derbyniadau i'r ddwy brifysgol. Bydd yn ystyried yr un cohort, h.y. myfyrwyr sydd wedi cwblhau eu harholiadau TGAU yn 2009-10 a Safon Uwch yn 2011-12. Mae'r rhes "Ddim yn byw yng Nghymru, wedi dilyn AB yng Nghymru" yn dangos myfyrwyr sydd wedi'u haddysgu yn y sector AB yng Nghymru ond nad oeddent yn byw mewn ALl yng Nghymru, neu roedd eu hardal breswylio yn anhysbys am ryw reswm. O ystyried bod ffigurau rhai o'r ALl yn fach, mae'r achosion sy'n cynnwys rhwng un a thri o fyfyrwyr wedi'u hatal er mwyn diogelu preifatrwydd. Nid yw canrannau cyfraddau derbyn yn cael eu dyfynnu, unwaith eto oherwydd bod y niferoedd yn rhy fach i ddarparu mesurau realistig.

Yn yr un modd â'r tablau yn Adran 2, nid oes cydraddoldeb llwyr rhwng y setiau data a ddefnyddiwyd i lunio'r tabl canlynol. Mae ffigurau perfformiad Cymru a Lloegr ar gyfer myfyrwyr o bob sector addysgol perthnasol (y sector a gynhelir a'r sector annibynnol ar gyfer TGAU; y sector a gynhelir, y sector annibynnol ac AB ar gyfer Safon Uwch). Mae ffigurau perfformiad Gogledd Iwerddon ar gyfer myfyrwyr yn y sector ysgolion a gynhelir yn unig. Mae ffigurau derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt ar gyfer ymgeiswyr sy'n byw mewn ALl o bob sector addysg (a gynhelir, annibynnol ac AB). Mae'r rhes "Yn byw yng Nghymru, wedi'u haddysgu y tu allan i Gymru" ar gyfer myfyrwyr a oedd yn byw yng Nghymru ond a oedd yn derbyn eu haddysg y tu allan i Gymru pan wnaethant gais i'r brifysgol. Mae'r data wedi'i raddio

o’r nifer leiaf i’r nifer fwyaf o fyfyrwyr sy’n cyflawni AAA neu uwch yn eu harholiadau Safon Uwch ar ddiwedd 2011-12.

**Tabl 2.5: Y cyrhaeddiad academaidd uchaf a derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt yn ôl Awdurdod Lleol ar gyfer 2011-12 (2009-10 ar gyfer TGAU)**

| Rhanbarth | Nifer y disgyblion TGAU (2010) | # 5A* + (2010) | % 5A* + (2010) | Nifer y disgyblion Safon Uwch (2012) | # AAA + (2012) | % AAA + (2012) | # A*A*A + (2012) | % A*A*A + (2012) | Nifer y ceisiadau i Rydychen | Nifer y derbyniadau i Rydychen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 802 | 9 | 1.1% | 206 | 5 | 2.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful | 692 | 7 | 1.0% | 170 | 8 | 4.7% | <3 | * | 5 | <3 |
| Ynys Môn | 719 | 19 | 2.6% | 264 | 16 | 6.1% | 4 | 1.5% | 4 | 0 |
| Torfaen | 1322 | 28 | 2.1% | 360 | 20 | 5.6% | 6 | 1.7% | 9 | <3 |
| Wrecsam | 1278 | 32 | 2.5% | 317 | 21 | 6.6% | 5 | 1.6% | 18 | 5 |
| Caerffili | 2158 | 47 | 2.2% | 636 | 27 | 4.2% | 9 | 1.4% | 17 | 4 |
| Sir Benfro | 1378 | 33 | 2.4% | 504 | 30 | 6.0% | 5 | 1.0% | 18 | 6 |
| Ceredigion | 815 | 35 | 4.3% | 343 | 30 | 8.7% | 10 | 2.9% | 19 | 5 |
| Sir y Fflint | 1721 | 35 | 2.0% | 595 | 32 | 5.4% | 9 | 1.5% | 20 | <3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1608 | 49 | 3.0% | 624 | 33 | 5.3% | 5 | 0.8% | 17 | <3 |
| Conwy | 1374 | 32 | 2.3% | 526 | 35 | 6.7% | 15 | 2.9% | 16 | 4 |
| Sir Ddinbych | 1339 | 35 | 2.6% | 468 | 35 | 7.5% | 14 | 3.0% | 19 | <3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1622 | 39 | 2.4% | 415 | 37 | 8.9% | 9 | 2.2% | 6 | <3 |
| Casnewydd | 1749 | 84 | 4.8% | 662 | 50 | 7.6% | 14 | 2.1% | 25 | 5 |
| Gwynedd | 1424 | 64 | 4.5% | 500 | 52 | 10.4% | 7 | 1.4% | 16 | <3 |
| Powys | 1575 | 68 | 4.3% | 631 | 56 | 8.9% | 10 | 1.6% | 33 | 11 |
| Rhondda Cynon Taf | 2867 | 66 | 2.3% | 969 | 58 | 6.0% | 18 | 1.9% | 32 | 8 |
| Sir Fynwy | 1093 | 92 | 8.4% | 502 | 81 | 16.1% | 29 | 5.8% | 34 | 5 |
| Sir Gaerfyrddin | 2177 | 117 | 5.4% | 854 | 84 | 9.8% | 32 | 3.7% | 41 | 9 |
| Bro Morgannwg | 1536 | 96 | 6.3% | 743 | 86 | 11.6% | 21 | 2.8% | 44 | 6 |
| Abertawe | 2548 | 118 | 4.6% | 939 | 102 | 10.9% | 36 | 3.8% | 77 | 10 |
| Caerdydd | 3751 | 218 | 5.8% | 1610 | 202 | 12.5% | 82 | 5.1% | 133 | 26 |
| Ddim yn byw yng Nghymru, wedi dilyn AB yng Nghymru | | | | 48 | <3 | * | <3 | * | | |
| Yn byw yng Nghymru, wedi'u haddysgu y tu | | | | | | | | | 90 | 21 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **allan i Gymru** | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cymru** | 35548 | 1323 | 3.7% | 12886 | 1102 | 8.6% | 343 | 2.7% | 693 | 135 |
| **Cyfanswm Lloegr** | 639263 | 28678 | 4.5% | 257166 | 33311 | 13.0% | 12925 | 5.0% | 20044 | 5035 |
| **Cyfanswm Gogledd Iwerddon** | 22931 | 1214 | 5.3% | 11292 | 1645 | 14.6% | 519 | 4.6% | 327 | 84 |
| **Cyfanswm yr Alban** | | | | | | | | | 600 | 132 |
| **Cyfanswm y DU**[14] | 697742 | 31215 | 4.5% | 281344 | 36058 | 12.8% | 13787 | 4.9% | 21664 | 5386 |

Gan gofio bod rhai o'r ffigurau hyn yn rhy fach i fod yn arwyddocaol yn ystadegol, gellir llunio nifer o arsylwadau addysgiadol ohonynt. Ac eithrio rhai anghysondebau, mae nifer y myfyrwyr ym mhob ALl sy'n cyflawni 5A* neu uwch yn yr arholiadau TGAU ac A*A*A* neu uwch yn yr arholiadau Safon Uwch, yn dueddol o gynyddu yn unol â nifer y myfyrwyr sy'n cyflawni AAA neu uwch yn yr arholiadau Safon Uwch. Hynny yw, mae patrwm cyflawniad uwch yn ôl ALl yn gyson ar draws yr ystod o raddau uchaf. Yn yr un modd, mae nifer y ceisiadau i Rydychen a Chaergrawnt o bob ALl yn dueddol o ostwng yn unol â nifer y myfyrwyr sy'n cyflawni AAA neu uwch yn yr arholiadau Safon Uwch, ond nid yw hyn yn wir am nifer y ceisiadau hynny sy'n llwyddiannus yn y pen draw. Un eithriad yw bod gan ALl Castell-nedd Port Talbot a Gwynedd niferoedd gymharol isel o fyfyrwyr sy'n gwneud cais ac sy'n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt. Wrth dderbyn hyn ar ei olwg, mae'n awgrymu y gallai fod unrhyw gyfuniad o amgyffrediad, uchelgais, neu bryderon gwybodaeth o bosibl yn y ddau faes hyn. Mae hyn yn ganfyddiad diddorol.

Mae'n hollbwysig nodi bod Tabl 2.5 yn dangos bod y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt wedi'u dosbarthu'n eang o amgylch Cymru, ac mai dim ond un ALl - Blaenau Gwent - oedd heb unrhyw ymgeiswyr i Rydychen a Chaergrawnt yng nghylch UCAS yn 2012. Roedd gan yr holl ALl eraill o leiaf un myfyriwr a dderbyniodd le ar ddiwedd cylch UCAS yn 2012, er bod gan 40% o'r ALl dri neu lai o fyfyrwyr a dderbyniodd le yn y prifysgolion hyn. Yn ogystal, gwelodd hanner yr ALl yng Nghymru lai na deg o fyfyrwyr yn llwyddo i gyflawni A*A*A* neu uwch yn yr arholiadau Safon Uwch ar ddiwedd 2011-12. Er bod ymgeiswyr i Rydychen a Chaergrawnt, a myfyrwyr academaidd llwyddiannus, yn ymddangos yn anghyffredin mewn rhai ardaloedd, mae'r un mor amlwg nad yw ffactorau daearyddol yn unig yn atal ymgeiswyr rhag llwyddo i gael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt. Nid yw fel pe bai'r ymgeiswyr sy'n byw yn y rhannau hynny o Gymru sydd agosaf at Loegr neu sy'n fwy metropolitan yn derbyn ffafriaeth.

[14] Nid yw'r ffigurau perfformiad yn cynnwys sector annibynnol yr Alban na Gogledd Iwerddon.

Ar ôl nodi'r arsylwadau hyn, bu drafft cychwynnol y papur hwn yn archwilio perfformiad academaidd a nifer y cynigion a gafwyd gan brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt yn ôl darparwr addysg ôl-16 o fewn sampl o ALl yng Nghymru ar gyfer cylch UCAS yn 2012. I wneud hyn, fe wnaethom nodi naw ALl yng Nghymru a oedd yn cynrychioli tueddiadau amrywiol ar draws Cymru, yn ogystal ag amrywiaeth o ran daearyddiaeth, amrywiaethau cymdeithasol-economaidd a demograffeg: Caerdydd, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen a Wrecsam. Yn ogystal â'r mesurau perfformiad a ddefnyddiwyd gennym yn flaenorol, fe wnaethom hefyd nodi sector y sefydliadau a ystyriwyd (a gynhelir, annibynnol neu AB), cyfrwng addysgol yr ysgolion a gymhellir (dwyieithog, Saesneg neu Gymraeg),[15] a chanran cohortau cyfan pob ysgol a gynhelir, a oedd yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim yn 2011-12. Ni chafodd ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion, a darparwyr annibynnol bach iawn, sydd ond yn cynnwys nifer fach iawn o fyfyrwyr TGAU a Safon Uwch bob blwyddyn, eu cynnwys. Cafodd ysgolion annibynnol eu hystyried o fewn yr ALl lle maent wedi'u lleoli, a chafodd colegau AB eu hystyried o fewn yr ALl lle maent yn derbyn y mwyafrif o'u myfyrwyr Safon Uwch. Darparwyd data Rhydychen a Chaergrawnt gan CAO ond ni chafwyd sicrwydd ansawdd gan OUAO.

Nid yw'r canlyniadau tabl o'r archwiliad hwn yn cael eu cyflwyno yma, oherwydd byddai angen eu hatal yn sylweddol er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr yn ddienw. Fodd bynnag, gellir nodi'r pwyntiau canlynol o'r archwiliad, gan gofio bod canlyniadau Safon Uwch Cymru yn 2011-12 yn Nhabl 2.1 yn gymharol isel, o gymharu â'r pedair blynedd academaidd flaenorol:

(a) Roedd gan chwe ysgol annibynnol, yn nhri o'r ALl a aseswyd, ganrannau cymharol uchel o fyfyrwyr a oedd wedi perfformio'n gryf yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch. Roedd gan ddwy o'r ysgolion hyn gyfraddau uchel cyffredinol o gynigion gan Rydychen a Chaergrawnt. Nid oedd gan bedair o'r ysgolion. Ym mhob achos, roedd nifer y myfyrwyr dan sylw yn gymharol fach.
(b) O'r 81 o ysgolion a gynhelir a ystyriwyd, roedd gan chwech ohonynt, sef 7%, ddeg neu fwy o ymgeiswyr i Rydychen a Chaergrawnt. Roedd y chwe ysgol hyn mewn tri ALl, sef Caerdydd, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe, ac roedd gan y chwe ysgol chweched dosbarth cymharol fawr a oedd yn perfformio'n gymharol uchel. Roedd gan ddwy o'r chwe ysgol gyfradd cynigion cyffredinol o fwy na 20% ar gyfer Rhydychen a Chaergrawnt.
(c) O'r 81 o ysgolion a gynhelir a ystyriwyd, nid oedd gan 37 (46%) unrhyw fyfyrwyr Safon Uwch a oedd wedi cyflawni A*A*A neu uwch, h.y., nid oedd unrhyw fyfyrwyr yn gyfartal â'r mwyafrif o ymgeiswyr Rhydychen a Chaergrawnt. O'r 1371 o ddisgyblion a oedd wedi cwblhau arholiadau Safon Uwch yn y 37 ysgol

[15] Dyfynnwyd y nodweddion hyn o wefan yr ALl perthnasol neu, os nad oeddent ar gael yno, o wefan yr ysgol ei hun.

hyn, derbyniodd pump ohonynt (0.004%) gynigion gan Rydychen. Ni dderbyniodd unrhyw un gynigion gan Gaergrawnt.

(ch) O’r 81 o ysgolion a gynhelir a ystyriwyd , roedd gan 20 (25%) un myfyriwr Safon Uwch a oedd wedi cyflawni A*A*A neu uwch. Roedd gan naw (11%) ddau fyfyriwr o’r fath. Roedd gan 15 (18%) dri myfyriwr neu fwy.

(d) O’r wyth coleg AB a ystyriwyd, roedd gan bedwar gohortau Safon Uwch annodweddiadol o fawr. O’r pedair ysgol hyn, roedd gan un ohonynt niferoedd arbennig o uchel o fyfyrwyr a oedd wedi perfformio’n dda yn yr arholiadau Safon Uwch ac ymgeiswyr i Rydychen a Chaergrawnt, er bod ei chyfradd derbyn i Rydychen a Chaergrawnt yn is na dwy o’r pedair ysgol hyn.

(dd) Ac eithrio dwy ysgol, roedd gan bob darparwr a gynhelir neu ddarparwr AB a oedd â phum myfyriwr neu fwy o fyfyrwyr Safon Uwch a oedd wedi cyflawni A*A*A* neu uwch, gyfradd cynigion uwch gan Gaergrawnt, o gymharu â Rhydychen.

Ar y cyfan, mae’r pwyntiau hyn yn cadarnhau'r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod neu’n ei amau. Ar begwn uchaf y sbectrwm cyrhaeddiad, mae darparwyr annibynnol yn perfformio’n gryf mewn arholiadau, ond nid mor gyson gryf ag y byddai rhywun yn ei ragweld yn nhermau cynigion gan Rydychen a Chaergrawnt. Mae gan leoliadau chweched dosbarth a cholegau AB mwy niferoedd cymharol fawr o ymgeiswyr i Rydychen a Chaergrawnt ar gyfartaledd, oherwydd bod ganddynt gronfeydd mwy o dalent, ond unwaith eto, nid yw’r ceisiadau hyn yn gyson lwyddiannus.

Mae’n werth nodi bod pump o’r chwe ysgol a gynhelir a nodwyd yn (b), fel darparwyr nifer uchel o ymgeiswyr i Rydychen a Chaergrawnt, ymhlith y saith ysgol a gynhelir yn y sampl, oedd â phum myfyriwr Safon uwch neu fwy a oedd wedi cyflawni A*A*A* neu uwch. Hynny yw, ac yn galonogol, mae’r darparwyr hynny sydd â’r niferoedd uchaf o fyfyrwyr sy’n gyfartal yn academaidd ag ymgeiswyr llwyddiannus i Rydychen a Chaergrawnt yn dueddol o anfon y nifer uchaf o ymgeiswyr. Ymddengys bod (dd) yn adlewyrchu, yn anuniongyrchol, ein harsylwadau blaenorol, sef bod ymgeiswyr Safon Uwch Caergrawnt yn dueddol o gyflwyno cyrhaeddiad cryfach yn ddiweddar, o gymharu ag ymgeiswyr Safon Uwch Rhydychen.

Ar begwn arall y sbectrwm cyrhaeddiad, mae (c) yn ystadegyn di-flewyn-ar-dafod: nid oedd gan bron i hanner y sampl o ysgolion o’r sector a gynhelir unrhyw fyfyrwyr a oedd wedi cyflawni graddau a oedd yn gyfartal â’r mwyafrif o ymgeiswyr Rhydychen a Chaergrawnt. Mae’n ymddangos bod y ffaith y derbyniodd 0.004% o fyfyrwyr Safon Uwch o’r ysgolion hynny gynigion gan Rydychen yn arwydd clir o’r gydberthynas rhwng y perfformiad gorau mewn arholiadau a llwyddiant ceisiadau. Roedd gan 36% o’r ysgolion yn y sampl o ysgolion o’r sector a gynhelir ddim ond un

neu ddau o fyfyrwyr a oedd wedi llwyddo i gyflawni graddau a oedd yn gyfartal â'r mwyafrif o ymgeiswyr Rhydychen a Chaergrawnt, ac mewn nifer o achosion roedd hynny o leoliadau chweched dosbarth mawr.  Mae'r nifer isel o fyfyrwyr o'r fath yn amlwg iawn.

Hwyrach mai'r (diffyg) tueddiad amlycaf o'r dadansoddiad olaf hwn yw, ac eithrio Caerdydd, oedd na cheir llawer o gydberthynas gwrthwyneb rhwng canran y cohort ysgolion oedd â hawl i gael cinio ysgol am ddim a chyrhaeddiad academaidd.  O ystyried ei bod yn gyffredin gweld cyswllt rhwng tueddiadau cyrhaeddiad academaidd uchel iawn gyda chefndir cymdeithasol-economaidd a demograffeg cohort sefydliad, roedd yn ddiddorol gweld nad oedd ein tystiolaeth bob amser yn cadarnhau hyn.  Ymddengys bod rhai sefydliadau yn perfformio'n gryf, er gwaethaf y ffaith bod gan ganrannau cymharol uchel o'u cohortau hawl i gael cinio ysgol am ddim.  Nid yw hyn yn wir am sefydliadau eraill.

## Adran 3: Cymariaethau rhanbarthol rhwng Cymru a Lloegr

Ochr yn ochr â'r casgliadau sy'n cael eu llunio drwy asesu'r naw ALl cynrychioliadol yng Nghymru uchod, gofynnwyd i ni hefyd adolygu'r rhain yn erbyn cymaryddion y tu allan i Gymru, er mwyn cwestiynu a oedd y tueddiadau a ganfuwyd yng Nghymru yn digwydd yn benodol yng Nghymru, neu a oeddent yn ffenomena cyffredinol. Cafwyd ymgais i gynnal adolygiad o'r fath, ond yn dilyn ymgynghoriad ar yr adolygiad, roeddem yn pryderu, er bod egwyddor adolygiad o'r fath yn ymddangos yn syniad da, y byddai ffactorau lleol yn anochel yn aflunio canlyniadau'r adolygiad, ac nid yw'n bosibl rhoi cyfrif am hyn yn y data sydd ar gael i ni. Mae'r cafeat hwn, yn cyflwyno ein methodoleg gymharu ranbarthol isod, er mwyn darparu darlun cyflawn.

Er mwyn ceisio cynnal cymhariaeth ranbarthol gyda'r sampl o naw ALl yng Nghymru, fe wnaethom nodi naw ALl cyfatebol yn Lloegr, yn ôl ystod o ddata meintiol, yn cynnwys: pellter yr ALl o Rydychen a Chaergrawnt;[16] maint y boblogaeth o Gyfrifiad 2011;[17] maint y boblogaeth 15-19 o Gyfrifiad 2011;[18] a dadansoddiad POLAR3 (sy'n nodi lefel cynnydd disgyblion sy'n gadael yr ysgol ym maes AB yn ôl ALl).[19] Rydym hefyd wedi ystyried cymariaethau ansoddol drwy geisio canfod cyfatebiaethau ar sail nodweddion, e.e. ardaloedd arfordirol gwledig (Sir Benfro a Torbay); canolfannau trefol (Abertawe a Kingston upon Hull); dinasoedd metropolitan (Caerdydd a Manceinion); a rhanbarthau ôl-ddiwydiannol (Rhondda Cynon Taf a Gogledd Tyneside). Cyflwynir ein cymariaethau arfaethedig yn llawn yn y tabl canlynol.

[16] Cyfrifiwyd y pellter daearyddol a'r amser teithio i'r ddwy brifysgol drwy Google Maps.
[17] Tabl P04, http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census/population-and-household-estimates-for-england-and-wales/rft-p04.xls [cyrchwyd 24/03/14].
[18] Tabl P04, http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census/population-and-household-estimates-for-england-and-wales/rft-p04.xls [cyrchwyd 24/03/14].
[19] http://www.hefce.ac.uk/whatwedo/wp/ourresearch/polar/mapofyoungparticipationareas/ [cyrchwyd 24/03/14].

**Tabl 3.1: Astudiaeth achos i nodi cymariaethau o Loegr ar gyfer sampl o Awdurdodau Lleol yng Nghymru**[20]

| Awdurdod Lleol yng Nghymru | Pellter i Rydychen (m) | Amser i Rydychen (oriau a munudau) | Pellter i Gaergrawnt (m) | Amser i Gaergrawnt (oriau a munudau) | Y boblogaeth 15-19 | Y boblogaeth gyffredinol | Disgrifiad POLAR3 | % prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd mewn ALl | Awdurdod Lleol yn Lloegr | Pellter i Rydychen (m) | Amser i Rydychen (oriau a munudau) | Pellter i Gaergrawnt (m) | Amser i Gaergrawnt (oriau a munudau) | Y boblogaeth 15-19 | Y boblogaeth gyffredinol | Disgrifiad POLAR3 | % prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd mewn ALl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Caerdydd** | 118 | 2,01 | 200 | 3,29 | 25900 | 346100 | 1-5 | 17.7% | **Manchester** | 161 | 2,42 | 182 | 3,08 | 38300 | 503100 | 1-3 | 35.0% |
| **Sir Ddinbych** | 192 | 3,15 | 213 | 3,41 | 6000 | 93700 | 2-5 | 14.5% | **Darlington** | 224 | 3,41 | 197 | 3,15 | 6400 | 105600 | 1-5 | 17.3% |
| **Gwynedd** | 198 | 4,00 | 216 | 4,28 | 8400 | 121900 | 3-5 | 11.3% | **Halton** | 161 | 2,33 | 182 | 3,00 | 8100 | 125800 | 1-4 | 30.2% |
| **Sir Benfro** | 214 | 3,43 | 296 | 5,11 | 7500 | 122400 | 4-5 | 13.6% | **Torbay** | 183 | 3,02 | 265 | 4,29 | 7600 | 131000 | 1-5 | 15.0% |
| **Powys** | 155 | 2,53 | 194 | 3,50 | 8000 | 133000 | 3-5 | 8.3% | **Cornwall** | 223 | 3,29 | 305 | 4,57 | 31800 | 532300 | 3-5 | 12.2% |
| **Rhondda Cynon Taf** | 135 | 2,28 | 217 | 3,56 | 14900 | 234400 | 3-5 | 19.4% | **Gogledd Tyneside** | 261 | 4,21 | 234 | 3,55 | 11500 | 200800 | 1-3 | 13.7% |
| **Abertawe** | 155 | 2,36 | 237 | 4,04 | 16100 | 239000 | 1-5 | 18.3% | **Kingston upon Hull** | 190 | 3,11 | 144 | 2,45 | 17400 | 256400 | 1 | 28.3% |
| **Torfaen** | 109 | 1,56 | 191 | 3,24 | 6100 | 91100 | 3-5 | 15.9% | **Hartlepool** | 238 | 3,57 | 211 | 3,31 | 6300 | 92000 | 1-4 | 23.0% |
| **Wrecsam** | 145 | 2,45 | 166 | 3,12 | 8800 | 134800 | 1-4 | 16.4% | **Knowsley** | 170 | 2,42 | 191 | 3,08 | 10100 | 145900 | 1-5 | 34.3% |

[20] Dyfynnwyd y ffigurau % prydau ysgol am ddim https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Local-Authorities/Free-School-Meals/PupilsEligibleForFreeSchoolMeals-by-LocalAuthority-Sector [cyrchwyd 24/03/14], a Thabl 8b, https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/219262/sfr10-2012lat.xls [cyrchwyd 24/03/14].

Mewn dau achos, yr ydym yn ymwybodol ein bod wedi dewis cymharu ALl â gwahaniaeth arwyddocaol ym maint eu poblogaeth: Caerdydd a Manceinion, a Phowys a Chernyw. Yn yr achos cyntaf, roeddem yn credu ei bod yn bwysig cydnabod rôl Caerdydd fel prifddinas Cymru, a'i chymharu â dinas fetropolitan debyg yn Lloegr. Yn yr ail achos, roeddem eisiau cymharu dwy ardal ddaearyddol fawr sydd â chymunedau sy'n gymharol ynysig o ganlyniad i absenoldeb seilwaith drafnidiaeth. Gan ganiatáu ar gyfer y gwahaniaethau hyn, credwn fod ein cymaryddion yn gynrychioliadol, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn Nhabl 3.1.

Ar ôl sefydlu'r fframwaith hwn, aethom ati i gymharu'r ffigurau cyrhaeddiad uchaf yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch ar gyfer y sampl o naw ALl yng Nghymru a'r naw ALl cymharol yn Lloegr, ochr yn ochr â'u ffigurau ymgeisio a derbyn ar gyfer Rhydychen a Chaergrawnt, ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2007-08 i 2011-12. Roedd y ffigurau cyrhaeddiad a oedd ar gael i ni ar gyfer y sector a gynhelir yn unig, ac nid oeddent yn cynnwys ysgolion annibynnol, AB, nac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Roedd ffigurau Rhydychen a Chaergrawnt ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yn yr ALl a nodwyd pan wnaethant eu cais i'r brifysgol.

Daeth yn amlwg yn fuan iawn bod y gwahaniaethau rhwng y cohortau a aseswyd yn ôl y data cyrhaeddiad a derbyniadau yn achosi problemau: y cyntaf ar gyfer y sector a gynhelir yn unig; yr ail, ar gyfer pob myfyriwr sy'n byw ym mhob ALl a nodwyd. Yn bwysicach na hyn, o bosibl, amlygwyd problemau yn ein hymagwedd yn yr ymgynghoriad ar ein canlyniadau, problemau nad oeddem wedi'u rhagweld yn ein data. Er enghraifft, mewn un ALl yn Lloegr, roedd yr hyn a oedd yn ymddangos yn gyrhaeddiad gwael yn yr arholiadau Safon Uwch wedi'u hystumio'n llwyr gan y nifer uchel o leoliadau chweched dosbarth lleol gwych ar ffiniau awdurdodau cyfagos. O ganlyniad i hyn, er bod nifer dda o fyfyrwyr, hyd eithaf ein gwybodaeth, yn yr ALl dan sylw yn perfformio'n dda yn yr arholiadau Safon Uwch, nid oedd yr un o'r rhain wedi'u cofrestru fel ystadegau ar gyfer yr ALl hwnnw, am eu bod wedi'u haddysgu y tu allan i'r fwrdeistref. Roedd ALl arall yn cyflwyno problem i'r gwrthwyneb fwy neu lai, sef cynnydd rhagorol ymddangosiadol ond anghynrychioliadol i Rydychen a Chaergrawnt, o ganlyniad i waith coleg chweched dosbarth lleol arbennig o gryf. Hynny yw, roedd gwybodaeth leol, nad oedd yn amlwg yn yr ystadegau a gyflwynwyd, wedi codi amheuon yn gyflym iawn ynghylch dilysrwydd yr ymagwedd hon i'r ymarfer cymharol.

Yr hyn y gellir ei ddatgan yn ystyriol o'n data oedd, o fewn yr ALl hynny lle'r oedd poblogaethau tebyg o bobl ifanc 15-19 (h.y. pob un ac eithrio Caerdydd a Manceinion, a Phowys a Chernyw), yw bod cyfran lai o ymgeiswyr Safon Uwch yn y sector a gynhelir yn Lloegr, o gymharu â Chymru (ac eithrio yn achos Sir Benfro a Torbay). Mae hefyd yn amlwg bod myfyrwyr o'r sector a gynhelir yn Lloegr yn

dueddol o gyflawni canlyniadau gwell, o ran y graddau Safon Uwch uchaf, o gymharu â’u cyfoedion yng Nghymru, yn unol â’r dirywiad yng nghyrhaeddiad myfyrwyr yn y graddau Safon Uwch uwch, a nodwyd yn Nhablau 2.1-2.4.

## Casgliadau

Mae'r papur hwn yn nodi tri phwynt sy'n galw am ystyriaeth bellach. Yn gyntaf, yn ystod 2008-12, roedd gan ymgeiswyr a oedd yn byw yng Nghymru siawns is yn ystadegol, o gymharu ag ymgeiswyr a oedd yn byw yn y DU, o gael eu rhoi ar y rhestr fer, o dderbyn cynnig lle, a chael eu derbyn yn y pen draw yn Rhydychen neu yng Nghaergrawnt. Yn ail, yn ystod yr un cyfnod, roedd cyraeddiadau yng ngraddau uchaf TGAU yn is yng Nghymru nac yr oeddent yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, er eu bod yn gwella. Yn drydydd, yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad yng nghyrhaeddiad graddau uchaf Safon Uwch yng Nghymru, ac eithrio ar y brig, lle'r oedd yn ddigyfnewid.

Yn y lle cyntaf, byddai rhywun yn rhagweld cydberthynas rhwng y pwyntiau hyn, h.y. mae cyrhaeddiad cymharol isel o'r graddau uchaf yn dueddol o arwain at gynnydd isel i Rydychen a Chaergrawnt. Fodd bynnag, fel y dadleuwyd eisoes, nid yw'r data a gyflwynwyd yn cadarnhau patrwm o'r fath. Mae angen dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad ymgeiswyr yn ôl gwledydd, er mwyn dangos a yw'r cyrhaeddiad a'r patrwm cynnydd a nodwyd yng Nghymru yn fwy na chyd-ddigwyddiad trawiadol. Fel y nodwyd yn n.6, bydd hyn yn cael ei ystyried mewn papur ar wahân.

Y mater arall sy'n codi, sy'n galw am ystyriaeth bellach, yw'r anhawster wrth gymharu data o Gymru gyda data o Loegr a Gogledd Iwerddon, pan mae'n amlwg bod y tri yn wahanol iawn mewn nifer o ffyrdd. Mae'r dull cymharu ALl a gynigir yn Adran 3 yn rhesymegol ar y cyfan, ond mae nifer o ffactorau lleol yn tanseilio hyn. Fodd bynnag, gan gydnabod pwysigrwydd cymariaethau o'r fath, rydym yn cynnig dadansoddiad ategol i gymharu Cymru gyfan gyda rhanbarth tebyg yn Lloegr. Unwaith eto, cyflwynir hyn mewn papur ar wahân, gyda chyfiawnhad a data ategol.